



Animal & Plant Health Agency

Annwyl Syr/Fadam,

GWYBODAETH AM NEWID I FFFIOEDD RHESTRAU O AMRYWOGAETHAU PRYDAIN FAWR A GOGLEDD IWERDDON (GB/NI VL) A HAWLIAU BRIDWYR PLANHIGION (PBR) A'R CYFNOD YMGYSYLLTU

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am nifer o newidiadau arfaethedig i ffioedd GB/NI VL a PBR. Daw'r newidiadau hyn i rym o 9 Ionawr 2023. Mae cyfnod ymgysylltu o chwe wythnos wedi cael ei lansio cyn i'r newidiadau hyn ddod i rym.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU i godi tâl am lawer o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n gyhoeddus. Y dull safonol yw pennu ffioedd i adennill costau cyflenwi gwasanaethau yn llawn. Mae hyn yn rhyddhau'r trethdalwr o gostau, fel eu bod yn cael eu hysgwyddo'n briodol gan ddefnyddwyr sy'n elwa o wasanaeth. Mae hyn yn caniatáu dosbarthu adnoddau cyhoeddus yn fwy teg ac yn galluogi llai o fenthyca a gwariant cyhoeddus.

Mae gwasanaethau Amrywogaethau Planhigion a Hadau, gan gynnwys GB/NI VL a PBR, yn gweithredu yn unol â'r egwyddor hon o adennill costau llawn. Adolygir ffioedd Amrywogaethau Planhigion a Hadau yn rheolaidd, ac fe'u haddasir i sicrhau na fydd gormod neu ddim digon o gostau'n cael eu hadennill.

A fyddech cystal ag anfon unrhyw sylwadau am y newidiadau arfaethedig i'r ffioedd at pvs.helpdesk@apha.gov.uk erbyn 28 Tachwedd 2022.

Mae'n bosibl y bydd sylwadau a roddir mewn ymateb i'r llythyr hwn a'r Papur Gwybodaeth ar Ddiweddarau Fffioedd Hawliau Bridwyr Planhigion a Rhestrau o Amrywogaethau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, ar gael i'r cyhoedd ar gais, yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os nad ydych yn dymuno i'ch ymateb, gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth bersonol arall, fod ar gael i'r cyhoedd, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn cyflwyno eich sylwadau. Sylwch, os bydd eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd hyn yn cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd. Esboniwch pam fod angen i chi gadw manylion yn gyfrinachol.

Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd rhywun yn gofyn am yr wybodaeth o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Fodd bynnag, ni allwn warantu y byddwn bob amser yn gallu cadw'r manylion hynny'n gyfrinachol.

Mae'r newidiadau i'r ffioedd wedi'u nodi isod.

1. Cynnydd yn y ffi weinyddu ar gyfer GB/NI VL a PBR.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ffi weinyddu ar y cyd GB/NI VL a PBR	450	598	32.9%

2. Cynnydd yn y ffi weinyddu ar gyfer VCU.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ffi weinyddu VCU	165	173	4.8%

3. Cynnydd yn ffioedd DUS AFBI a'r gost flynyddol ar gyfer porfeydd.

	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ffi DUS	788	1091	38.5%
Cost Flynyddol ar gyfer porfeydd	422	584	38.4%

4. Cynnydd yn ffioedd DUS SASA a ffioedd VCU tatws.

Prawf	Cnwd	Ffi Gyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
DUS	Llyisiau	1,294	1,525	17.9%
	Pys Llyisiau	1,334	1,515	13.6%
	Pys y Maes	1,394	1,575	13.0%
	Swêds/Rwdins	1,010	1,050	4.0%
	Maip Rêp	1,325	1,560	17.7%
	Tatws	451	1,080	139.5%
VCU	Tatws	1,064	2,058	93.4%

5. Cynnydd yn ffioedd DUS NIAB.

	Ffioedd Cyfredol (£)	Ffi Newydd (£)	% Cynnydd
Ydau gaeaf	985.00	1,016.52	3.2%
Ydau gwanwyn	985.00	1,016.52	3.2%
Ffa maes - ffi drefnu*	2,985.00*	3,080.52*	3.2%
Ffa maes - ffi a gyhoeddwyd (50% o'r ffi drefnu)	1,492.50	1,540.26	3.2%
WOSR, rēp porthiant a chēl porthiant	1,755.00	1,811.16	3.2%
Betys siwgr	600.00	619.20	3.2%
Planhigion Addurnol (tai gwydr)	2,250.00	2,322.00	3.2%
Planhigion Addurnol (tu allan)	1,950.00	2,012.40	3.2%

* Ar gyfer Ffa Maes, bydd Defra yn parhau i gefnogi'r gwahaniaeth rhwng y Ffi Drefnu y cytunwyd arni a'r Ffi Profion DUS a gyhoeddwyd, gan ystyried unrhyw newidiadau mewn swmp. Bydd Ffi Profion DUS ar gyfer Ffa Maes oddeutu 50% o'r Ffi Drefnu.

Mae'r newidiadau hyn yn fesurau ar unwaith i sicrhau bod costau llawn y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hadlewyrchu yn y ffioedd. Bwriedir cynnal adolygiad ehangach o ffioedd GB/NI VL a PBR yn y DU yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn ystyried y newidiadau yn swmp y ceisiadau yn y DU a'r gwaith yn y meysydd hyn.

Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau yn y papur gwybodaeth sydd ynghlwm.

Yn gywir

Michael Brown